## Dinas a Sir Abertawe

## Hysbysiad o Gyfarfod

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod

# Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 17 Hydref 2018**

**Amser:** **4.00 pm**

**Cadeirydd:** **Cynghorydd Ceri Evans**

**Aelodaeth:**
Cynghorwyr: C Anderson, S J Gallagher, P R Hood-Williams, E T Kirchner, M B Lewis, S Pritchard, C Richards, M Sykes a/ac G J Tanner

---

**Agenda**

| | | Rhif y Dudalen. |
|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2 | **Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.** www.abertawe.gov.uk/DatgeliadauBuddiannau | |
| 3 | **Cofnodion:** Cymeradwyo a llofnodi, fel cofnod cywir, gofnodion y cyfarfod blaenorol. | 1 - 3 |
| 4 | **Trosglwyddo - Sut mae trosglwyddo'n gweithio ar hyn o bryd ar draws y System Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, gan ganolbwyntio'n arbennig ar brofiad y dinesydd. (Cyflwyniad)** | |
| 5 | **Cynllun Gwaith 2018-2019.** | 4 |

**Cyfarfod Nesaf:** Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018 ar 4.00 pm

Huw Evans

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Dydd Mercher, 10 Hydref 2018**

**Cyswllt: Gwasanaethau Democrataidd - (01792) 636923**

**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 19 Medi 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | E T Kirchner | M B Lewis |
| S Pritchard | C Richards | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Sheridan | Pennaeth y Gwasanaeth Dysgwyr Diamddiffyn |
| Jo Veck | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, S J Gallagher, M Sykes a/ac G J Tanner

---

**17 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**18 Cofnodion:**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf ac 15 Awst 2018 fel cofnod cywir.

**19 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) - I ba raddau y mae'r cyngor eisoes yn wybodus ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod?**

Amlinellodd y Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol Fframwaith yr Amgylcheddau sy'n Wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau a Dylunio, a oedd yn cynnwys y canlynol,

1. Fframwaith seicolegol – mae gan sefydliadau sy'n wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ddiben a gallant addasu;
2. Arfer sy'n Creu Tystiolaeth – mae sefydliadau sy'n wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gynhwysol,

3. Yr amgylchedd – mae sefydliadau sy'n wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn lleoedd diogel i weithio ynddynt neu i gael mynediad atynt,
4. Hyfforddiant staff – cefnogaeth i staff
5. Perthnasoedd – mae sefydliadau sy'n wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cydnabod perthnasoedd fel offeryn allweddol ar gyfer lles, cefnogaeth a newid.

Trafododd y pwyllgor gynnwys y fframwaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a'r agweddau y gellid eu defnyddio er mwyn cyflenwi'n prosesau presennol. Cydnabuwyd ganddynt fod prosesau penodol eisoes ar waith gan yr awdurdod er mwyn iddo fod yn gynhwysol drwy ganolbwyntio ar les a diogelu. Fodd bynnag, gofynnodd a oedd gan ein holl staff y lefel gywir o ymwybyddiaeth ac a ddarparwyd lefel ddigonol o gefnogaeth i'n staff er mwyn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Roedd angen dealltwriaeth hollol glir o ymagwedd at waith sy'n wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod y gellir ei disgrifio gan yr holl staff (h.y. mae staff yn deall sut mae eu gwaith yn atal neu'n lliniaru Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod neu'n ymdrin â hwy).

Gellid defnyddio'r fframwaith fel man cychwyn a'i addasu yn ôl yr angen. Yn benodol, paragraffau 4.1 – 4.8 o'r fframwaith oedd meysydd i ganolbwyntio arnynt. Dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol i'r holl staff – yn unol â'n hyfforddiant diogelu cyfredol, ac yna ar raddfa symudol i'r rhai sy'n fwy tebyg o weithio yn y maes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Dylai gwmpasu dysgu a datblygu hefyd a darparu cefnogaeth i staff a fydd, yn eu tro, yn darparu cefnogaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Awgrymodd Pennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr Diamddiffyn y byddai ymagwedd ar sail gwydnwch yn fwy cynhyrchiol na chanolbwyntio'n unig ar ymagwedd Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae angen i ni greu'r gwasanaethau a'r amgylchedd fel y gallwn gydnabod yn gynnar pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn profi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a darparu cefnogaeth briodol i liniaru'r peryglon i les, ynghyd â defnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth i wella gwydnwch.

Roedd y pwyllgor eisoes wedi trafod yr angen am "Ddatganiad o Ddiben" fodd bynnag, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr Diamddiffyn fod y Strategaeth Lles Integredig Ddrafft eisoes yn cydnabod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn hyrwyddo datblygu gwydnwch. Mae'r strategaeth yn amlinellu ymagwedd integredig at hyrwyddo, meithrin a chefnogi lles plant a phobl ifanc. Cynigodd ddiffiniad o les ynghyd ag amlinellu fframwaith ar gyfer asesu lles person, gan gynnwys risgiau posib i les. Darparodd hefyd fodel i arwain yr ymyriadau amlasiantaeth fel eu bod yn ataliol, yn brydlon ac yn ddiysgog. Mae'r strategaeth newydd hon yn rhan o'r blaenoriaethau lles ehangach a amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol yr awdurdod a Chynllun Lles Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cytunodd y pwyllgor fod Cyngor Abertawe, ar hyn o bryd, yn wybodus ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ond gall fod rhai anghysondebau ynghylch ymwybyddiaeth staff, a fydd yn gofyn am ymagwedd fwy diysgog at ddysgu, hyfforddi a datblygu yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y pwyllgor ei fod wedi cwrdd â Phennaeth y Gwasanaethau Dysgwyr Diamddiffyn a Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn dechrau llunio adroddiad ar waith y pwyllgorau ynghylch Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddosbarthu rhwng aelodau'r pwyllgor er mwyn iddynt roi eu sylwadau a byddai'r fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod nesaf, cyn iddi gael ei chyflwyno i'r Cabinet.

**Penderfynwyd** dosbarthu'r adroddiad drafft am Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'r Cabinet i aelodau'r pwyllgor er mwyn iddynt roi eu sylwadau a chyflwyno'r fersiwn ddiwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 20 Cynllun Gwaith 2018-2019.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2018-2019.

**Penderfynwyd** diwygio'r cynllun gwaith fel a ganlyn,

1) Gan y trefnir y cyfarfod nesaf ar gyfer 17 Hydref 2018, dylai'r pwyllgor ystyried y canlynol:
   a. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod – Llunio adroddiad ar gyfer y Cabinet
   b. Cyflwyniad ar "Drosglwyddo – Sut mae Trosglwyddo'n gweithio ar hyn o bryd yn y systemau Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiad dinasyddion".

Daeth y cyfarfod I ben am 5.06 pm

**Cadeirydd**

**Report of the Chair**

**People Policy Development Committee**

# Workplan 2018-2019

| Date of meeting | Agenda items and Format |
|---|---|
| 20 June 2018 | **Work Plan Discussion** |
| 25 July 2018 | **Adverse Childhood Experiences (ACE)** – Understanding the implications of ACE's for citizens. |
| 15 August 2018 | **Adverse Childhood Experiences (ACE)** – Understanding the implications of ACE's for citizens. |
| 19 September 2018 | **Adverse Childhood Experiences (ACE)** – To what extent is the Council already ACE informed? |
| 17 October 2018 | **Transition** – How does transition currently work across the Health, Social Care and Education system, particularly focussing on citizen experience? |
| 7 November 2018 | **Transition** – Current plans to improve transition.<br>**Adverse Childhood Experiences (ACE)** - Draft Report to Cabinet (tbc) |
| 12 December 2018 | **Transition** – Proposals to improve particularly focussing on voice and choice of citizens. |
| 16 January 2019 | **Supported Living** – What is Supported Living and how are new arrangements developed. |
| 20 February 2019 | **Supported Living** – Current arrangements to engage community including Ward Members. |
| 29 March 2019 | **Supported Living** – Current proposals to improve community engagement and Ward Members. |
| 17 April 2019 | |